# Rheoli datblygiad personol a myfyrio ar ymarfer presennol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli eich datblygiad personol yn eich rôl a myfyrio ar ymarfer presennol. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol fel y gallwch arddangos a llwyddo i fodloni amcanion gwaith.

Bydd y safon yn caniatáu i ymarferwyr fyfyrio ar eu hymarfer presennol a cheisio cyfleoedd i wella'u sylfaen wybodaeth a sgiliau.

Yn y safon hon, gall gofynion eich sefydliad gyfeirio at god ymarfer ac ymddygiad, gwerthoedd craidd, datganiad cenhadaeth, polisïau a chanllawiau eich sefydliad.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Trafod a chytuno ar amcanion datblygu personol gyda'ch rheolwr llinell a chytuno pa mor aml y cânt eu hadolygu
2. Nodi a blaenoriaethu unrhyw fylchau yn eich gwybodaeth neu'ch sgiliau i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gyfredol, yn unol ag arfer gorau presennol
3. Trafod a chytuno ar gynllun datblygu gyda'ch rheolwr llinell i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n cael eu hamlygu mewn gwybodaeth neu sgiliau
4. Ceisio cyfleoedd i wella gwybodaeth, sgiliau a phrofiad presennol ymhellach, fel y'u hamlinellir yn eich cynllun datblygu
5. Ymgymryd â gweithgareddau fel y cytunwyd arnynt yn y cynllun datblygu i sicrhau bod eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol
6. Adolygu a thrafod amcanion datblygu personol gyda'ch rheolwr llinell i sicrhau bod perfformiad ar y trywydd cywir
7. Ceisio adborth gan bobl eraill ar berfformiad a myfyrio arno i sicrhau'r arfer gorau
8. Cymryd camau ar sail yr adborth a gafwyd i fyfyrio ar eich effeithiolrwydd eich hun ac effeithiolrwydd y sefydliad, a'u gwella
9. Gyda'ch rheolwr tîm, trafod ac adolygu sut byddwch chi'n gweithio gyda'ch tîm ac eraill i gefnogi dealltwriaeth gyffredin, annog cydweithrediad, adnabod amrywiaeth y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw a hyrwyddo delwedd gadarnhaol o'ch sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl, rôl pobl eraill yn eich sefydliad a'r gweithgareddau a wneir
2. Cylch gwaith a chyfyngiadau eich rôl a'ch cyfrifoldebau a chyfyngiadau eich awdurdod
3. Pwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb personol am eich datblygiad eich hun
4. Sut i nodi anghenion datblygu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gwybodaeth neu sgiliau
5. Sut i osod amcanion gwaith sy'n benodol ac yn fesuradwy
6. Eich gwerthoedd, nodau eich gyrfa a'ch nodau personol
7. Polisi a gweithdrefnau eich sefydliad yn gysylltiedig â datblygu ac adolygu personol
8. Y cyfleoedd sydd ar gael i wella'ch sylfaen wybodaeth a sgiliau a ble i gael gafael arnynt
9. Technegau ar gyfer hunanasesu i nodi cryfderau a gwendidau personol
10. Ffyrdd o flaenoriaethu camau gweithredu sy'n datblygu eich effeithiolrwydd personol ac effeithiolrwydd eich sefydliad
11. Beth ddylai cynllun datblygu effeithiol ei gynnwys
12. Ble i ddod o hyd i gyfleoedd datblygu ac adnoddau sydd ar gael o fewn eich sefydliad
13. Yr amrywiaeth o arddulliau dysgu gwahanol a'r arddulliau sy'n gweithio orau i chi
14. Sut i fonitro ansawdd eich gwaith a'ch cynnydd yn erbyn gofynion a chynlluniau
15. Sut i werthuso eich perfformiad yn erbyn gofynion eich rôl
16. Sut i nodi a defnyddio ffynonellau da o adborth ar eich perfformiad
17. Diben ymarfer myfyriol a gwerthuso a sut mae'n llywio'ch datblygiad
18. Gofynion y sector a chanllawiau arfer da ar gyfer datblygu a chynnal gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd
19. Sut i wneud cyfraniadau cadarnhaol at waith tîm effeithiol, gan gynnwys pwysigrwydd trin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth a chyfrif am amrywiaeth a'i dderbyn

Rheoli datblygiad personol a myfyrio ar ymarfer presennol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Mai 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Mai 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ HA203 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y sector cyfiawnder a chymunedau mwy diogel |
| **Cyfres/Set** | Cyfiawnder Cymunedol |
| **Geiriau Allweddol** | Datblygiad Personol; dysgu, myfyrio; adborth; adolygu; rheoleiddiol; nodau; technegau; cynllun datblygu; gweithgareddau; arddulliau dysgu; adnoddau; cyfleoedd |